

Gwybodaeth i Gleifion


Hysterosalpingogram

Y Gyfarwyddiaeth Radioleg Clinigol

Beth yw Hysterosalpingogram (HSG) a pham mae angen un arnaf?

Mae Hysterosalpingogram yn brawf pelydr-X arbennig sy'n dangos p'un a yw eich croth yn normal ac a yw eich tiwbiau ffalopaidd ar agor. Bydd hyn yn helpu doctoriaid i ddod o hyd i achos eich problemau, er enghraifft, pam na allwch chi feichiogi, a phenderfynu ar y driniaeth fwyaf priodol i chi.

Gellir defnyddio hyn hefyd i weld a fu triniaeth ddiffwrwythloni yn llwyddiannus.



Profion cyn cael HSG

Haint

Cewch brofion swab yn y Clinig Gynaecoleg i sicrhau nad oes haint yn eich pelfis.

Beichiogrwydd

Pan fyddwch yn cyrraedd yr Adran Pelydr-X byddwch yn cael prawf beichiogrwydd cyn y prawf HSG a bydd angen dod â sampl o'ch wrin o gynnar y bore.

Sylwch: ni fydd y prawf beichiogrwydd yn canfod beichiogrwydd cynnar iawn sy'n llai na saith diwrnod ar ôl beichiogi.

Sut mae trefnu Apwyntiad?

Os yw eich mislif yn rheolaidd:-

Bydd ein Swyddfa Trefnu Apwyntiadau yn cysylltu â chi a gofyn ichi gysylltu â nhw ar ddiwrnod cyntaf eich mislif (neu ar y dydd Llun canlynol os yw hyn yn digwydd ar y penwythnos) ar:-

01495 – 765100 – Dewiswch OPSIWN 4

Fe drefnir apwyntiad ar eich cyfer rhwng diwrnod 6 a diwrnod 10 eich cylch misol.

Os yw eich mislif yn afreolaidd neu os na chewch fislif o gwbl:-

Cysylltwch â'ch gynaeolegydd i gael cyngor.

Pryd na chaf i brawf Hysterosalpingogram?

- Os credwch y gallwch fod yn feichiog
- Os ydych yn gwaedu
- Os oes haint y fagina arnoch
- Os ydych wedi cael triniaeth lledu a chiwretio

Sut gwneir y prawf?

Byddwch yn gorrwedd ar fwrdd pelydr-X mewn safle tebyg i brawf ceg y groth. Rhoddir sbecwlwm yn y fagina a chaiff tiwb bach neu gathetr ei basio drwy geg y groth ac i mewn i gorff y groth. Defnyddir hyn i chwistrellu hylif cyferbyniol arbennig neu "liw" a fydd yn ymddangos ar y prawf pelydr-X. Bydd y driniaeth yn cymryd rhwng 10 a 30 munud fel arfer ond gall gymryd hwy weithiau.

Dewch â phad hylendid (dim tampon) gyda chi achos mae'n bosibl y bydd gwaedu ysgafn ar ôl y driniaeth a byddwch yn colli'r "lliw" hefyd.

A fydd y driniaeth yn brifo?

Pan fo'r cathetr yn mynd i mewn, mae'n bosibl y bydd yn teimlo'n annifyr ond bydd hyn yn diflannu'n gyflym. Nid yw pob claf yn teimlo hyn.

Pan gaiff y "lliw" ei chwistrellu, mae'n bosibl y bydd poen tebyg i boenau'r mislif, ond mae hyn gwella yn syth ar ôl i'r archwiliad ddod i ben.

Rydym yn argymhell ichi gymryd Paracetamol, Ibuprofen neu beth bynnag y byddwch yn ei gael fel arfer at boen mislif, ddwy awr cyn eich apwyntiad.

Beth yw'r risgiau?

Os ydych yn feichiog

Gallai'r driniaeth achosi comesgor a gallai pelydr-X niweidio'r babi sy'n datblygu.

Haint

Mae'r posibilrwydd o gael haint ar ôl y driniaeth hon yn fychan, ond mae risg bychan. Os ydych yn dueddol o gael heintiau gall eich gynaecolegydd ragnodi gwrthfotigau ichi eu cymryd cyn y Hysterosalpingogram.

Alergedd

Mae hyn yn eithriadol o brin, ond os oes gennych alergeddau, rhowch wybod i'r ymarferydd cyn y driniaeth.

Llewygu

Prin

A gaf i wybod canlyniadau yr HSG ar y diwrnod?

Ar ôl yr HSG gallwn ddweud wrthyb beth mae'r pelydr-X wedi ei ddangos, ond bydd angen ichi weld eich Ymgynghorydd a'ch atgyfeiriodd am ragor o fanylion ac eglurhad. Rydym yn eich cynghori felly, ond nid yw'n hanfodol, i ddod â rhywun gyda chi i'ch apwyntiad.

Rydym yn gobeithio bod y wybodaeth hon yn ddefnyddiol ac yn hawdd ei deall.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu bryderon, ffoniwch y **Swyddfa Trefnu Apwyntiadau** ar:

01495 – 765100 – OPSIWN 4

- Neu gofynnwch yn yr adran pelydr-X yn ystod eich apwyntiad.

Ysgrifennwch ddiwrnod yr wythnos a dyddiad diwrnod **CYNTAF** eich mislif yn y blwch isod.

Diwrnod _____ Dyddiad ____/____/____

Dewch â'r daflen hon i'ch apwyntiad

ar:

ynghyd â'ch sampl o wrin cyntaf y bore.

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English".**

Paratowyd y daflen hon gan yr Adran Radioleg, Ysbyty Nevill Hall mewn ymgynghoriad ag Adrannau Radioleg Ysbyty Brenhinol Gwent.